GREEN GEN TYWI WYSG

Cysylltu ynni adnewyddadwy i gartrefi a busnesau yng Nghymru

GREEN GEN CYMRU

FFURFLEN ADBORTH

Dweud eich dweud ar ein cynlluniau diwygiedig

Ymgynghoriad ar agor rhwng: Dydd Mercher 13 Mawrth a dydd Mercher 8 Mai 2024.

Mae potensial di-ben-draw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd. Ond mae angen i ni sicrhau bod yr ynni gwyrdd sy'n cael ei gynhyrchu yn cyrraedd y cartrefi, ysbytai, ysgolion, busnesau a chymunedau sydd ei angen yng ngweddill Cymru a'r tu hwnt.

Adeiladwyd llawer o'r seilwaith trydan presennol yng Nghymru flynyddoedd lawer yn ôl, i gludo trydan o hen orsafoedd pŵer tanwydd ffosil yn y gogledd a'r de. Nid oes gan y rhwydwaith presennol yng Nghanolbarth Cymru ddigon o gapasiti i gysylltu'r holl ynni adnewyddadwy newydd sydd ei angen arnom ar gyfer ein cartrefi a'n busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym ni angen seilwaith newydd ar frys er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil.

Rydym ni eisiau creu dyfodol cadarnhaol a glân i bob un ohonom. Mae Green GEN Cymru yn cymryd camau nawr i adeiladu a gweithredu rhwydwaith ynni gwyrdd i Gymru, a fydd yn sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn gallu cyrraedd ein cartrefi, ein hysbytai, ein hysgolion, ein busnesau a'n cymunedau.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cynnig cysylltiad 132kV (132,000-folt) newydd, tua 97 cilomedr o hyd rhwng is-orsaf ym Mharc Ynni Nant Mithil ac is-orsaf newydd, i'w datblygu gan y National Grid, ar y llinell drawsyrru 400kV (400,000-folt) bresennol ger Llandyfaelog, yn Sir Gaerfyrddin.

Ein cynigion gwreiddiol – gwanwyn 2023

Yn ystod gwanwyn 2023, fe wnaethom ymgynghori â phobl leol ynghylch y llwybr rydym ni'n ei ffafrio ar gyfer Green GEN Tywi Wysg.

Llinell uwchben cylched dwbl, wedi'i chario ar beilonau dur, drwy gydol y llwybr oedd ein cynnig gwreiddiol.

Ein cynigion gwreiddiol – gwanwyn 2024

Fe wnaethom ystyried yn ofalus yr holl adborth a gafwyd yn ein rownd gyntaf o ymgynghori, ynghyd ag asesiadau amgylcheddol a thechnegol pellach. Rydym bellach wedi adolygu ein cynlluniau ac wedi nodi **aliniad llwybr drafft** sy'n dangos i ble y gallai'r seilwaith fynd.

Rydym ni wedi gwneud nifer o newidiadau, gan gynnwys y canlynol:

- llinell uwchben cylched sengl sy'n cael ei chynnal ar bolion pren rhwng Parc Ynni Nant Mithil a gorsaf newid newydd wrth droed Bryn Aberedw;
- darn o gebl o dan y ddaear lle mae'r llwybr yn croesi Afon Tywi ger Llanarthne, a;
- rhai newidiadau i'r llwybr mewn mannau eraill.

Mae gwybodaeth fanylach am ein cynigion diwygiedig yn ein **Llyfryn ymgynghoriad cam 2** ar ein gwefan yn www.greengentowyusk.com/cymraeg.



Beth ydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch yn yr ail rownd o ymgynghori - gwanwyn 2024

Rydym yn gofyn am eich adborth ar y canlynol:

- Unrhyw ffactorau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer **aliniad llwybr drafft**, yn cynnwys lleoliadau arfaethedig peilonau, polion pren, ceblau o dan y ddaear, gorsaf newid a safle'r is-orsaf.
- Eich barn ynglŷn a ddylem ddewis Opsiwn A neu Opsiwn B ar gyfer yr aliniad llwybr drafft yn ardal Coedwig Crychan (gweler map adran 3).
- Unrhyw ffactorau sydd heb, yn eich barn chi, gael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma ac a fydd yn ein helpu i nodi unrhyw broblemau posibl a chwblhau ein cynlluniau manwl cyn i ni baratoi ein ceisiadau am gydsyniad.
- Hoffem wybod hefyd a oes gennych chi syniadau am ardaloedd yn eich cymuned chi a allai elwa o fuddsoddiad drwy gronfa buddsoddi cymunedol Bute Energy.

Mae eich adborth manwl yn bwysig

Mae'r adborth a gawn gan gyrff arbenigol a chymunedau yn rhan allweddol o'r ffordd y byddwn yn mireinio ein cynigion. Gall eich gwybodaeth leol ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a manteision posibl nad ydym efallai wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

Rydym ni'n awyddus i ddeall safbwyntiau lleol ar ein cynlluniau diwygiedig.

Rhowch wybod i ni drwy lenwi'r ffurflen adborth hon neu sganio'r cod QR i ymweld â'n gwefan www.greengentowyusk.com/cymraeg, lle gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y prosiect a rhoi eich adborth ar-lein.

Cyflwynwch eich adborth i ni ar yr aliniad llwybr drafft yn y rownd ymgynghori hon rhwng dydd Mercher 13 Mawrth a dydd Mercher 8 Mai 2024.

Mae'r dyddiad cau am 11.59pm nos Fercher 8 Mai.

www.greengentowyusk.com/cymraeg

Neu sganio'r côd QR

Drwy e-bost at: info@greengentowyusk.com

Ffôn: **0800 3777 339**

Copi caled o'r adborth i:
FREEPOST GREEN GEN TOWY USK

Sylwch mai canllaw yw'r ffurflen adborth hon, gallwch ddefnyddio'r ffurflen i roi adborth ateb unrhyw gwestiynau neu bob un. Os yw'n well gennych cyflwyno adborth trwy ddull arall, gallwch gwneud hynny yn ysgrifenedig neu drwy e-bost.

Gwybodaeth amdanoch chi

Teitl:	Enw:				
Grŵp oed:	☐ 18 oed ac iau	☐ 19 - 34	☐ 35 - 50	☐ 51 - 65	☐ Dros 65 oed
Cyfeiriad:					
Cod Post:	Cyfeiriad e-bost:				
Hoffech chi dderbyn diweddariadau e-bost am y prosiect yn y dyfodol?	☐ Hoffwn	☐ Na hoffwn			
Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?	☐ Ydw	☐ Nac ydw			
Os ydych chi, pa sefydliad:					
Ydych chi'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir yn yr ardal rydym ni wedi'i nodi ar gyfer yr aliniad llwybr drafft?	☐ Ydw	☐ Nac ydw			
Os ydych chi, a yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi?	☐ Do	☐ Naddo			

Sut byddwn ni'n defnyddio eich adborth

Byddwn yn defnyddio eich adborth i adolygu'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud hyd yma ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae llinellau uwchben 132kV newydd, yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac yna bydd y penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

Bydd adborth o'n hymgynghoriad cyhoeddus, a gan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a sefydliadau cenedlaethol yn ein helpu i ddatblygu dyluniad terfynol ar gyfer y prosiect.

Byddwn hefyd yn cynnal rhagor o asesiadau technegol ac arolygon i lywio ein Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA).

Cyn i ni gyflwyno cais am ganiatâd i PEDW, a fydd yn digwydd o gwmpas 2025, bydd cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC) statudol, lle bydd pobl yn gallu adolygu a rhoi sylwadau ar y dyluniadau manwl a'r Datganiad Amgylcheddol drafft.

Cyflwynwch eich adborth erbyn 8 Mai 2024

www.greengentowyusk.com/cymraeg

Drwy e-bost at: info@greengentowyusk.com

Ffôn: **0800 3777 339**

Copi caled o'r adborth i:
FREEPOST GREEN GEN TOWY USK

ALINIAD LLWYBR DRAFFT

C1 **A oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol am yr aliniad llwybr drafft rydym ni wedi'i nodi ar gyfer cysylltiad Tywi Wysg?**

C2 **A oes unrhyw ffactorau yn eich barn chi nad ydynt wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r aliniad llwybr drafft ar gyfer Tywi Wysg?**

ADRANNAU LLWYBR

C3 **Rydym wedi trefnu aliniad llwybr drafft yr ydym yn ei ddatblygu yn bum adran er hwylustod ac er mwyn rhoi cyfle i dderbyn sylwadau mwy penodol ac adborth manwl.**

Gallwch weld manylion llawn, map rhyngweithiol o'r aliniad llwybr drafft, a rhagor o wybodaeth am y cam hwn o'r ymgynghoriad ar wefan ein prosiect www.greengentowyusk.com/cymraeg.

Nodwch pa adran (neu adrannau) rydych chi'n cyfeirio atynt yn eich ymateb (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Rhan 1	Rhan 2	Rhan 3	Rhan 4	Rhan 5
Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw	Bryn Aberedw i Langamarch	Llangamarch i Lanymddyfri	Llanymddyfri i Landeilo	Llandeilo i Landyfaelog
☐	☐	☐	☐	☐

C4 **A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

GWYBODAETH AM YR YMGYNGHORIAD

C5 **Sut gwnaethoch chi glywed am yr ymgynghoriad? (ticiwch fel bo'n briodol)**

- ☐ Gwybodaeth yn y post
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Man gwybodaeth leol
- ☐ Newyddion neu sylw yn y cyfryngau
- ☐ Wedi clywed gan rywun arall

Arall (rhowch fanylion)

C6 **A oedd y wybodaeth a ddarparwyd gennym ar gyfer yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth?**

C7 **A oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich profiad o'r ymgynghoriad?**

CRONFA BUDDSODDI CYMUNEDOL BUTE ENERGY

Bydd cronfa buddsoddi cymunedol Bute Energy yn uniongyrchol buddsoddi yn y cymunedau yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn a bydd yn helpu i greu effaith barhaol yn lleol gan sicrhau bod manteision ein prosiectau ynni adnewyddadwy a deimlir gan gymunedau ledled Cymru.

Mae Bute Energy wedi paratoi mapiau cymdeithasol ar gyfer yr ardal, wedi siarad â rhanddeiliaid lleol ac wedi adolygu adborth o'n hymgynghoriad blaenorol i'w helpu i ddeall yn well sut gellir cefnogi cymunedau yn yr ardal.

Drwy adborth o'r rownd gyntaf o ymgynghori yn ystod gwanwyn 2023, ymgysylltu â phobl leol ac ymchwil gymdeithasol helaeth, y 5 prif her sy'n seiliedig ar leoedd a nodwyd ar hyd llwybr Tywi Wysg yw:

1. Bywyd a Chydnerthedd Cymunedol
2. Amaethyddiaeth
3. Mynediad at seilwaith trafnidiaeth a thrafnidiaeth
4. Cefnogi busnesau lleol, microfusnesau a sefydliadau
5. Unigedd ac arwahanu.

Mae'r gwaith mapio cymdeithasol wedi nodi themâu tebyg fel rhai pwysig yn y maes hwn lle gallwn ddarparu cymorth:

C8 **Ydych chi'n teimlo bod y themâu hyn yn adlewyrchu anghenion y gymuned yn gywir, neu a oes unrhyw themâu eraill y dylid eu hystyried yn eich barn chi?**

Cysylltwch â ni i roi gwybod beth yw enwau'r mudiadau sy'n darparu cefnogaeth i'ch cymuned.

C9 **Sut hoffech chi weld y Gronfa Budd Cymunedol yn cael ei defnyddio yn eich ardal chi?**

Y NEWID YN YR HINSAWDD A'N CYFLENWADAU YNNI

C10 **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (Sylwch fod yr adran hon yn ddewisol)**

Mae gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig yn y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cael eu dal yn ôl gan ddiffyg seilwaith y grid i'w cysylltu â rhwydweithiau pŵer.

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Hysbysiad preifatrwydd

Mae **Green GEN Cymru** (cwmni o fewn Grŵp Bute Energy) wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ei defnyddio yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).

Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio'r wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Byddwn yn defnyddio eich data personol a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn at ein dibenion busnes cyfreithlon, gan gynnwys:

- Dadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad
- Cynhyrchu Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, ar sail ein dadansoddiad o'r ymatebion (ni fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr Adroddiad)
- Ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymgynghoriad ac am ddatblygiadau eraill os ydych wedi dewis derbyn y diweddariadau hyn.
- Cadw cofnodion cyfredol am ein gohebiaeth ag unigolion a sefydliadau.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan (neu ar gael i) y derbynwyr canlynol i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a gawn:

- Green GEN Cymru (cwmni o fewn Bute Energy Group)
- Bute Energy (darparwr gwasanaethau datblygu i Green GEN Cymru)
- PEDW (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Green GEN Tywi Wysg – bydd unrhyw fanylion a gyhoeddir fel rhan o'r broses hon yn ddienw)
- Gweinidogion Cymru
- Ein cynghorwyr cyfreithiol
- Ymgynghorwyr sy'n gweithio ar brosiect Green GEN Tywi Wysg.

Pa hawliau sydd gen i dros fy nata personol?

O dan delerau GDPR y DU, mae gennych hawliau penodol ynghylch sut mae Green GEN Cymru yn cadw ac yn defnyddio eich data personol.

We have used sustainable sources for the production of this feedback form.

info@greengentowyusk.com | 0800 3777 339 | FREEPOST GREEN GEN TOWY USK

GREEN GEN CYMRU